CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 18ed RHAGFYR 2018

YN NEUADD GOFFA BODWROG

PRESENNOL:
Cyng H G Owen, R R Roberts, J E Lewis, E D Owen, R M Roberts, J Evans, E W Roberts, D T Roberts, E Williams Cyng Sirol R G Parry ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU:
Cyng Sirol Mrs N Roberts.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Cyng R M Roberts, R R Roberts, E D Owen, H G Owen. Rhif 1. Cynllunio.

CAEL COFNODION 20ed TACHWEDD 2018 YN GYWIR Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng D T Roberts.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.
Cae Chwarae. Ni chafwyd ymateb yn ol gan Mr J D Rowlands. Dim arall i`w drafod.

Cynllun Treflys, Tynlon. Mae rhaid cadw mewn golwg. Dywedodd Cyng Sirol B Parry y bydd yn cael ail olwg ar y sefyllfa. Cyngor. Y cynllun yma yn wahanol.
Y Fan y dal yn y lon. Mae yn fwgwd mawr i`r tramwy.

Cael cyfarfod cyhoeddus yn y Ganolfan, Bodffordd yn ymwneud a dyfodol yr ysgol mor fuan ag sydd yn bosib. Cyng E W Roberts yn edrych i fynnu y dyddiadau cyfleus.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. 14C235A. Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu ynghyd a dymchwel yn:-
   Neuadd Goffa Bodwrog, Tynlon.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng D T Roberts.

PENDERFYNIADAU:

2. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Swyddfa Refeniw.
   Praeseptau Cynghorau Cymuned a Thref 2019/20. Band D 414.40. Cyfarfod nesaf i pawb cael meddwl am anghenion.

4. Uwch Peiriannydd (Traffig a Parcio) Priffyrdd a Gwastraff ac Eiddo.
   Symud y Cyfryngiad Cyflymder 30mya tuag at Pen y Bryn, Bodffordd.
   Nid ellir mae yn dod dan rheolau gwlad. Derbyn.

   Bws Mini dros y ffordd i Ty Twyrch, Bodffordd.
   Yn cael ei scrapio. Am ei fod yn geg lon sy`n arwain at Felin Frogwy, felly nid yw ar y briffordd gyhoeddus ac ddim yn amharu ar ddefnydd o`r B5109 trwy`r pentref. Nid oes gan yr awrdurdod priffyrdd y pwerau i orfodi`r perchennog i symud y cerbyd. Siomedig ar ymateb.

Ceir yn cael ei trwsio y tu allan i`r garej, Hen Bost, Bodffordd.
Os mae`r gweithgaredd yn digwydd ar dir preifat ac yn fenter fasnachol yna gall yr Adran Gynllunio ymchwilio i hyn. Ni welwyd unrhyw gerbyd yn cael ei drwsio ar y lon.

5. Uwch Peiriannydd (Traffig a Parcio) Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.
Ymwneud a llythyr Miss Lowri Owen (Llynfaes) Lorriau Roland Young.
Y Cyngor Sir wedi darllen E Bost Miss Owen a`r ymateb gan Roland Young.
Mae pryderon eraill wedi dod i fewn am y lorriau mawr yn defnyddio y ffyrdd gweledig er mwyn cael mynediad i Chwarel Gwyndy. Anodd fydd i gyflwyno cyfyngiadau ar yr un lon heb gael effaith niweidiol ar gymuned arall. Felly nid oes bwriad i gyflwyno gwaharddiad pwysau ar lonydd yn yr ardal.
Mae`r Gwasanaeth Priffyrdd wedi ysgrifennu at Gwmni Hogan, perchenogion Chwarel Gwyndy yn gofyn iddynt leihau symudiadau loriau trwm yn ystod cyfnodau mynd a phlant i`r ysgol yn y bore ac adre ar ddiwedd y prynhawn.

6. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Mon.
Ymgynghori Cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol.
Tai Fforddiadwy. Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig Chynaliadwy.
Cyfleusterau a llety i Dwristiaid Ymgynghoriad Pellach.
Derbyn dim sylw nodedig.

GOHEBIAETH (ARALL)

7. Menter Mon. Holiadu`r Toiledau Ynys Mon. Derbyn dim toiledi.

8. Medrwn Mon. Dilyn Cyfarfod Cyntaf Lle Shaping yn yr Iorwerth Arms Bryngwran, 15.11.18. Gwahoddiad Chwefror 2019 am 6.30. Unfrydol.

9. Chwarae Dros Gymru. Rhifyn 51. Dathlu`r Hawl i Chwarae. Cylchgrawn. Derbyn.

10. Arolwg Defnydd Iaith Gymraeg. Llywodraeth cymru yn Gwerthfawrogi`ch help yn fawr yn cwblhau`r arolwg byr erbyn diwedd Ionawr 2019. Derbyn.

11. Valley Wings. Cylchgrawn Lly Awyr Valley. Derbyn.

RHODDION.

12. Theatre Bara Caws. Gadael hyd Mawrth 2019.

PLWYFOL.

13. Adolygu Cyflog y Clerc. (Cyfarfod nesaf)

14. Mynwent Gymunedol Bodffordd. Trafodwyd y Coed yn y Fynwent ei gwraidd yn broblemus. Ystyried i`w torri i lawr. Cael Arbenigwr i gael golwg?. Y posibilrwydd o dorri y fynwent i fynnu a rhoi coed bach i`w llwybro. Trafodaeth cyfarfod nesaf.

15. Sedd Wag. Ward Henglwys. Cafwyd cais gan Mr Robert Parry, Bryn Maelog, Bodfordd. Cyn gwneud penderfyniad y Clerc i gysylltu ac Adran Etholiadol y Cyngor Sir.

TALIADAU:

16. Clerc £220.83. Swyddfa Archwilio Cymru (Awdit Allanol) £337.05.Torri Glaswellt Mynwent Gymunedol £750.00. Treth Incwm 3. £165.60. Costau`r Cyngor (3 mis) £136.09.

Derbyniwyd y balans a talwyd y dyledion i gyd Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng R M Roberts.